# DATBLYGU EICH BUSNES - Medi – Tachwedd 2016

**Busnesau wedi cofrestru (30.11.2016)**

*Mae* 5792 o fusnesau *wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio* (**65%** *o nifer y busnesau a oedd wedi cofrestru gyda'r rhaglen Cyswllt Ffermio blaenorol)* 11275 o unigolion.


FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## 1. Gwasanaeth Cynghori

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorthdaledig annibynnol, cyfrinachol wedi eu teilwra ar gyfer:

- busnesau fferm
- busnesau coedwigaeth
- busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn y sector bwyd

### Nifer y ceisiadau ar gyfer pob categori cyngor




| CYNGOR UNIGOL | Cyfanswm nifer ceisiadau wedi eu cymeradwyo 01/10/15 – 30/11/16 | Cyfanswm nifer y ceisiadau wedi eu cymeradwyo 01/09/16 - 30/11/16 fel canran o nifer yr holl geisiadau 01/10/15 - 30/11/16 |
|---|---|---|
| Cynllunio Busnes | 368 | 28% |
| Technegol - Rheolaeth Glaswelltir a chnydau | 29 | 24% |
| Technegol - Perfformiad a Rheolaeth Da Byw | 14 | 42% |
| Technegol - Arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth | 7 | 28% |
| Cynllunio Busnes ar gyfer newydd ddyfodiaid | 3 | |
| Cynllunio Busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig Bwyd | 3 | |
| Technegol - Garddwriaeth | 1 | 100% |
| Technegol - Cynhyrchu organig | | |
| **Cyfanswm** | **425** | **28%** |
| **Targed = 800 achos o gyngor** | | |

Gall busnesau hefyd gael mynediad ar gyngor mewn grŵp, sydd wedi'i ariannu'n llawn. Dyma nifer y ceisiadau sydd wedi cael eu gwneud:


| CYNGOR GRŴP | Cyfanswm nifer y ceisiadau *(busnesau unigol)* 1/10/15- 30/11/16 | Cyfanswm nifer y grwpiau 1/10/15- 30/11/16 | Cyfanswm nifer y ceisiadau wedi eu cymeradwyo (busnesau unigol) 1/09/16 - 30/11/16 fel canran o nifer yr holl geisiadau wedi eu cymeradwyo 01/10/15 - 30/11/16 | Cyfanswm nifer yr achosion grŵp 1/09/16 - 30/11/16 fel canran o Gyfanswm nifer y ceisiadau grŵp 01/10/15 - 30/11/16 |
|---|---|---|---|---|
| Technegol – Rheolaeth Glaswelltir a chnydau | 60 | 15 | 90% | 93% |
| Technegol - Perfformiad a Rheolaeth Da Byw | 8 | 2 | 0 | 0 |
| Cynllunio busnes (mentrau ar y cyd) | 10 | 5 | 80% | 80% |
| **Cyfanswm** | **78** | **22** | **79%** | **81%** |
| **Targed = 200 individual instances** | | | | |


## 2. Cynllunio Busnes

Mae'r templed Cynllun Busnes a'r canllaw cysylltiedig ar gael i'w lawr lwytho ar wefan Cyswllt Ffermio.

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â thudalen Cynllunio Busnes ar y wefan *(Medi – Tachwedd 2016)* | 345 |
| Nifer o ymweliadau unigryw â'r dudalen *(Medi – Tachwedd 2016)* | 275 |
| Amser a dreuliwyd ar y dudalen: | 00:03:04 |

345
ymweliad â'r wefan Cynllunio Busnes






amser cyfartalog a dreulir ar y dudalen: 3:04

Mae Cyswllt Ffermio wedi datblygu nifer o ddulliau i gefnogi busnesau gyda'r broses o ddatblygu a dilyn y cynllun busnes strategol:

**a) Categori Cynllunio Busnes o fewn y gwasanaethau cynghori**

*"Mae'r categori cynllunio busnes o fewn gwasanaethau cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor cynllunio busnes cynhwysfawr sy'n cynnwys y fenter gyfan"*

**b) Gweithdai cynllunio busnes**

*"Canllaw cam wrth gam i ysgrifennu cynllun busnes, a fydd yn eich cynorthwyo i asesu eich datblygiad personol a datblygiad y busnes a chanfod unrhyw feysydd sydd angen eu gwella"*

**c) Sesiynau adolygu busnes**

*"Sesiwn un-i-un gyda chynghorydd wedi'i gymeradwyo gan Cyswllt Ffermio i'ch galluogi i asesu addasrwydd y cynllun busnes ar gyfer y dyfodol"*

**d) Cefnogaeth gan Swyddogion Datblygu**

*"Yn ystod mis Medi, Hydref a mis Tachwedd, mae Swyddogion Datblygu yng ngogledd Cymru wedi bod yn cefnogi busnesau i gwblhau'r templedi cynllun busnes, gan gynorthwyo busnesau i ganfod nodau byr dymor a hir dymor y busnes"*


| | |
|---|---|
| Nifer y gweithdai Cynllunio Busnes a gynhaliwyd *(Medi – Tachwedd 2016)* | 6 |
| Nifer y Sesiynau Adolygu Busnes a gynhaliwyd *(Medi – Tachwedd 2016)* | 26 |
| Nifer yr achosion o gyngor Cynllunio Busnes a dderbyniwyd *(Medi – Tachwedd 2016)* | 104 |

## 3. Cymorthfeydd un-i-un

Cynigir y clinigau a'r cymorthfeydd mewn sesiynau rhwng awr a dwy awr o hyd, rhai ohonynt ar y fferm a rhai mewn lleoliad penodol, gan ddibynnu ar natur y pwnc. Mae'r rhaglen yn hyblyg er mwyn galluogi cynnal cymorthfeydd ar bynciau eraill yn y dyfodol.

**Targed blynyddol ar gyfer nifer y cymorthfeydd = 60**

**Nifer y digwyddiadau (Medi – Tachwedd '16) = 90**




### CYMORTHFEYDD MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO NEWYDD

➜ **41** wedi mynychu

➜ Sgôr adborth cyfartalog **= 5.8/6**

➜ **100%** wedi dysgu rhywbeth newydd

**Dyfyniadau gan fuddiolwyr:**

*"Bellach, mae gen i well syniad o'r gofynion o fewn y diwydiant twristiaeth"* – Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio

*"Cam i'r cyfeiriad cywir - defnyddiol iawn"* – Cymhorthfa Olyniaeth

*"Fe wnaethom ni drafod llawer iawn o fewn awr! Mae pethau'n edrych yn llawer cliriach erbyn hyn – Diolch"* – Cymhorthfa Olyniaeth


*"Mae wedi gwneud pethau'n gliriach ac wedi cadarnhau ambell i syniad"* – Cymhorthfa Gynllunio

## 4. Clinigau

….cyngor un-i-un yn ymwneud â phynciau penodol i godi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau technegol.

**Targed blynyddol ar gyfer nifer clinigau = 21**

**Nifer y clinigau (Medi - Tach '16) = 37**



## Ffocws ar Glinigau Isadeiledd:

Yn ystod y chwarter hwn, bu Cyswllt Ffermio'n darparu cyfres o glinigau Isadeiledd gyda Jamie Robertson, ymgynghorydd rheolaeth fferm a da byw. Nod y clinig oedd darparu cefnogaeth wedi'i deilwra ar y fferm i ffermwyr yn ymwneud â dyluniad adeiladau er mwyn gwella perfformiad, iechyd a lles da byw.

Derbyniodd pob ffermwr a gymerodd ran gyngor wedi'i deilwra yn ymwneud â dyluniad eu hadeiladau presennol neu'r rhai a gynlluniwyd ganddynt er mwyn canfod meysydd i wella ac i sicrhau'r perfformiad da byw a'r iechyd a'r lles gorau.

*"Y Clinig Isadeiledd yw'r gwasanaeth gorau i mi ei dderbyn erioed gan Cyswllt Ffermio. Fe wnesi'r newidiadau a awgrymwyd yn syth, ac rwyf wedi gweld gwelliannau'n barod, a dim ond wythnos sydd wedi bod!"* Mathew Roberts, Ty Draw, Llanasa

## 5. Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

…Sioeau teithiol penodol i'r sector, digwyddiadau galw heibio a gweithdai.

**Targed blynyddol nifer y digwyddiadau = 70**

**Nifer y digwyddiadau (Medi – Tach '16) = 33**

- 1 Digwyddiad Arallgyfeirio ar fferm
- 1 Rheoli diadell dymhorol
- 1 Systemau pori ar gyfer da byw ymysg coed
- 1 BVD – y broblem fawr nesa?
- 6 Gweithdy Cynllunio Busnes
- 1 Opsiynau ynni adnewyddadwy
- 1 Lleihau cloffni mewn gwartheg
- 2 Ymwrthedd Gwrthficrobaidd
- 4 Fforwm Merched mewn Amaeth
- 1 Rheolaeth Glaswelltir a Phori
- 1 Clefydau metabolig mewn defaid
- 1 Cynhyrchwyr organig
- 6 Rheoli llyngyr yr iau
- 1 Tyfu a phesgi ŵyn
- 1 Lleihau cloffni mewn defaid
- 2 Deall eich offer EID
- 1 Uwchgynhadledd Sefydliadau Cynhyrchwyr Llaeth
- 1 Rheoli Stoc Ifanc Llaeth

## Merched mewn amaeth… ysbrydoli, ysgogi a galluogi… a dylanwadu ar yr agenda gwledig yn dilyn Brexit

*"Mae'n braf gweld bod merched o'r diwedd yn cael eu cydnabod yn rhan greiddiol o'n diwydiant. Nid yw merched ym myd ffermio bob amser yn gwerthfawrogi ein bod ni gyd yn wynebu'r un cyfyngiadau a heriau. Roedd y fforwm Merched mewn Amaeth yn ddigwyddiad rhwydweithio gwych a fydd yn sicrhau ein bod yn goresgyn ein hanawsterau gyda'n gilydd,"* meddai Sarah Lewis sy'n ffermio yn Llanrhaeadr ym Mochnant, ac un o'r 160 o ferched a fynychodd fforwm Merched mewn Amaeth Cyswllt Ffermio a gynhaliwyd ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Teitl y digwyddiad oedd 'ysbrydoli, ysgogi a galluogi', ac fe lwyddodd i gyrraedd disgwyliadau gyda'r rhaglen lawn o gyflwyniadau a gweithdai'n amlwg wedi taro tant gyda'r mynychwyr.

Un o nodau allweddol y digwyddiad eleni oedd annog y mynychwyr i ymuno â Fforwm Merched mewn Amaeth dros Gymru, ac mae canghennau wedi'u sefydli ers hynny ym mhob un o'r rhanbarthau Cyswllt Ffermio (Gogledd, De Orllewin a Chanolbarth a De Ddwyrain Cymru). Bydd trafodaethau o'r fforymau rhanbarthol yn cynorthwyo i ddylanwadu ar ddatblygu Polisi Amaethyddol ar ôl Brexit.

Cyflwynwyd y prif anerchiad ar ddechrau sesiwn y prynhawn gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Roedd neges yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnwys cydnabyddiaeth o'r rôl bwysig y mae merched yn ei chwarae mewn nifer o fusnesau fferm fel y rhai sy'n arwain newid, datblygiad busnes a moderneiddio.



## 6. Grwpiau Trafod

Mae grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn galluogi busnesau i ddysgu gan ei gilydd, trafod heriau, ystyried cyfleoedd ac o bosib i ganfod dulliau newydd neu well o weithio. Mae 100% o'r grwpiau trafod yn meincnodi.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y grwpiau a sefydlwyd ym mlwyddyn 1 | 41 |
| Cyfanswm nifer y grwpiau newydd a sefydlwyd Medi – Tachwedd 2016 | 20 |
| **Cyfanswm Grwpiau Trafod a sefydlwyd Hyd 2015 – Tach 2016** | **61** |

Grŵp trafod newydd a sefydlwyd (Medi – Tachwedd 2016)

| SECTOR | Nifer y grwpiau | Nifer y busnesau a gofrestrwyd ar BAS o'r sector % |
|---|---|---|
| Grwpiau Trafod Defaid | 10 | 3982 |
| Grŵp Trafod Llaeth | 5 | 1010 |
| Grwpiau Trafod Bîff* | 4 | 3484 |
| Grwpiau Trafod Garddwriaeth | 1 | 143 |


% mae mwyafrif y busnesau wedi nodi mwy nag un sector wrth gofrestru

*Mae'n bosib bod aelodau grwpiau trafod defaid hefyd yn rhedeg mentrau bîff ac i'r gwrthwyneb

Bydd 18 grŵp trafod newydd ychwanegol yn cael eu sefydlu yn ystod y chwarter nesaf, gan gynnwys grŵp trafod moch yng ngogledd Cymru.

## Ffocws ar grŵp trafod defaid:


Mae'r grŵp trafod hwn wedi canolbwyntio eu hamser yn ystod y flwyddyn gyntaf ar sicrhau bod eu priddoedd yn iawn a chanolbwyntio ar dwf glaswellt. Cynhaliodd y grŵp brawf twf glaswellt ar fferm un o aelodau'r grŵp rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016. Bu'r prawf yn edrych ar bori cylchdro o'i gymharu â stocio sefydlog ar ardal 8 erw. Ar gyfer y lleiniau pori cylchdro, rhannwyd yr 8 erw yn 4 llain 2 erw. Roedd y canlyniadau'n glir o blaid pori cylchdro ac roedd aelodau'r grŵp trafod yn gallu gwneud penderfyniadau rheolaeth yn seiliedig ar ganfyddiadau cychwynnol ar fferm un o'r aelodau. Cafodd mamogiaid eu cyflwyno ddiwedd Ebrill hyd 20fed Mehefin.




**Canlyniadau allweddol:**
Cynhaliwyd 57 yn fwy o ŵyn ar y llain pori cylchdro - cynhyrchwyd 1874.1kg yn fwy o gig oen ar y llain pori cylchdro sy'n gyfwerth â gwahaniaeth o £3,504.57 - 728 yn fwy o ddyddiau pori ar system bori cylchdro o'i gymharu â llain stoc sefydlog.

## 7. Mesur i Reoli

Mae Cyswllt Ffermio wedi datblygu agwedd newydd ac arloesol tuag at feincnodi ar gyfer busnes trwy'r rhaglen Mesur i Reoli. Mae'r modiwl cig coch yn barod i'w ddefnyddio gan aelodau grwpiau trafod a busnesau ffermio unigol. Mae'r adnodd yn cynnwys:



- Casglu data ffisegol *(canrannau sganio, canrannau magu, canrannau gwerthu ayyb)*
- Ffurflenni casglu data syml
- Cymhariaeth gyda chanlyniadau'r Arolwg Busnes

## 8. Gwefan Cyswllt Ffermio a'r Cyfryngau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â thudalennau unigryw (Medi – Tach 2016) | 76,585 |
| Cyfartaledd yr amser a dreulir ar y wefan | 00:05:04 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter ar 30.11.2016 | 3,119 |
| Nifer sy'n hoffi ar Facebook ar 30.11.2016 | 5,123 |

## 9. Sioeau ac Arddangosfeydd

Mae ein tîm o Swyddogion Datblygu Rhanbarthol wedi parhau i fynychu marchnadoedd da byw lleol i gofrestru busnesau newydd ac i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau Cyswllt Ffermio. Yn ogystal, bu Cyswllt Ffermio yn bresennol yn y sioeau canlynol rhwng Medi - Tachwedd 2016:

- Sioe Llanfair Caereinion (03/09/16)
- Sioe Brynbuga (10/09/16)
- Sioe Laeth Cymru (25/10/16)
- Ffair Aeaf Frenhinol Cymru (28 & 29/11/16)

**www.llyw.cymru/cyswlltffermio** - 08456 000 813

Facebook.com/FarmingConnect @FarmingConnect


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government